

## Prosiect Bioddiogelwch Llŷn a'r Sarnau (PLAS) – diweddariad Ionawr 2022

Blwyddyn Newydd Dda! Ers y diweddariad diwethaf, rydym wedi bod yn brysur yn codi ymwybyddiaeth o rywogaethau anffrodorol goresgynnol morol (INNS) a bioddiogelwch trwy gynnal digwyddiadau, cynhyrchu taflenni ffeithiau, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, [cynhyrchu fideo ar sut i adnabod yr ewin mochyn](#), [erthygl yn nghylchgrawn O Dan y Don ACA PLAS](#) ac ychwanegu gwybodaeth at [wefan ACA PLAS](#). Rydym ni wedi cynhyrchu mapiau dosbarthu INNS cyfoes ar gyfer INNS morol yng Nghymru, wedi bod yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i wella llyf data INNS a gweithio gyda Chymdeithas Pysgodfeydd Cymru ar gynllun wrth gefn INNS.

### Gweithdai



Cynhaliom y gweithdy prosiect cyntaf ar-lein ym mis Mehefin 2021. Mynychodd pysgotwyr, cychwyr hamdden, awdurdodau lleol, deifwyr, rheolwyr marina ac eraill. Cafwyd dwy sesiwn sgwrsio er mwyn trafod camau bioddiogelwch posibl, rhwystrau rhag cyflawni bioddiogelwch, adnoddau sydd eu hangen i gynnal bioddiogelwch a sut olwg ddylai fod ar y cynllun bioddiogelwch. Casglwyd sylwadau gan ddefnyddio plattform ar-lein a'u hysgrifennu'n adroddiad sydd wedi arwain camau nesaf y prosiect.

Yna cynhaliom ddigwyddiad hyfforddi INNS morol ochr yn ochr ag ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, prosiect Ecostructure ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar adnabod INNS morol gyda thua 40 sampl INNS morol yn cael eu harddangos. Roedd yr adborth yn wych a'r gobaith yw cynnal digwyddiad arall yn 2022.

### Monitro DNA amgylcheddol (eDNA)

Atal INNS rhag cyrraedd yn y lle cyntaf yw'r peth mwyaf effeithiol y gallwn ei wneud o bell ffordd. Os yw hynny'n methu a bod planhigyn neu anifail anffrodorol yn cyrraedd, yna'r peth gorau nesaf y gallwn ei wneud yw gweithredu'n gyflym. Mae rhan o'r prosiect bioddiogelwch yn cynnwys edrych ar botensial defnyddio eDNA i fonitro ar gyfer INNS morol. Mae Prifysgol Aberystwyth yn cyflawni'r gwaith sy'n cynnwys datblygu 'primyddion' i bigo rhywogaethau â blaenoriaeth gan gynnwys yr ewin mochyn Americanaidd, cimwch Americanaidd, cranc manegog Tsieina a chwistrell fôr garped. Byddwn hefyd yn edrych ar gyfansoddiad rhywogaethau mwy cyffredinol gan ddefnyddio metabarcodio.



### Beth nesaf?

Y camau nesaf yw cwblhau, argraffu a dosbarthu canllaw adnabod INNS morol Cymru, rhoi gwybodaeth ynghyd mewn cynlluniau gweithredu llwybrau a chynlluniau gweithredu rhywogaethau a pharhau i weithio gyda rhanddeiliaid i goladu'r holl wybodaeth mewn cynllun bioddiogelwch.

Rydym hefyd wrthi'n gweithio ar osod a threialu system angori uwch ym Mhorthdinllaen. Y gobaith yw, trwy osod yr angorfeydd hyn, y bydd llai o ddifrod i welyau morwellt yr ardal. Bydd hyn yn golygu llai o gyfle i'r gwymon sargaso Japaneaidd ymledol gytrefu a lledaenu yn yr ardaloedd hyn sydd wedi'u difrodi (darnau noeth o dywod lle mae'n ffynnu). Byddai'n wych clywed gennych chi, mae croeso i chi gysylltu â Chloe ar [chloe.powelljennings@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:chloe.powelljennings@naturalresourceswales.gov.uk) neu ffoniwch 07813407562 am ragor o wybodaeth/sgwrs